| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 4 |

**LEFEL 2**

# GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD
## Unedau 001/004 Johnny
## Set C

| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
|---|---|---|
| 1. | 2 | |
| 2. | 2 | |
| 3. | 5 | |
| 4. | 4 | |
| 5. | 4 | |
| 6. | 8 | |
| 7. | 3 | |
| 8. | 2 | |
| Cyfanswm | 30 | |

5952N1014C1 01

**Sylwadau'r Aseswr:**

**Llofnod IQA:**

**Dyddiad:**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Senario – Johnny**

Mae Johnny yn 7 oed ac yn mynychu'r clwb gwyliau mewn meithrinfa ddydd leol.

Mae gan Johnny frawd hŷn 12 oed sydd ddim yn mynychu'r clwb gwyliau.

Wythnos tri yw hi yn y clwb gwyliau ac mae Johnny wedi bod yn chwilio am bethau amhriodol *(inappropriate)* ar iPad y clwb. Mae'r hanes yn dangos chwiliadau fel 'rhyw' a 'saethu pobl'. Mae Steven, arweinydd y clwb, yn ceisio dangos sut gall Johnny fwynhau defnyddio'r iPad gan wylio deunyddiau sy'n briodol iddo ac, ar yr un pryd, mae'n trafod sut i ddefnyddio'r electroneg yn ddiogel. Mae'r clwb yn dilyn polisi e-ddiogelwch sy'n sicrhau bod pob dyfais electronig yn rhwystro unrhyw ddeunydd gwylio amhriodol. Maen nhw hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r plant am bwysigrwydd cadw'n ddiogel pan maen nhw ar-lein.

Ar adeg casglu'r plant, mae Steven yn cael gair tawel â thad Johnny heb i Johnny glywed.

Mae tad Johnny'n dweud, "Mae'n ddrwg gen i, mae ganddo frawd hŷn ac mae Jonny yn aml yn gwylio ei frawd yn chwarae gemau 16+ ar y PlayStation gan eu bod nhw'n rhannu ystafell wely. Mae e ar YouTube drwy'r amser a dw i byth yn siŵr iawn beth mae'n ei wylio. Ga i air gydag e." Mae Steven yn esbonio i Dad bod y systemau diogelwch yn y lleoliad ar osodiad uchel, sy'n rhwystro cynnwys amhriodol. Mae'n awgrymu bod hyn yn rhywbeth y gallai tad Johnny ei wneud gartref.

Y diwrnod wedyn, mae Steven yn rhoi taflen seiber-ddiogelwch i dad Johnny a chanllaw cam wrth gam ynglŷn â sut gall rhieni roi systemau diogelu ar ddyfeisiau electronig er mwyn atal plant fel Johnny rhag gweld deunyddiau amhriodol. Mae hefyd yn cofnodi hyn ar ffurflen cofnodi digwyddiadau ac yn trafod ei bryderon â gweddill y tîm.

Wythnos pump yw hi erbyn hyn ac mae rhywun wedi clywed Johnny yn defnyddio iaith rywiol amhriodol gydag un o'r plant eraill yn y clwb. Mae Steven yn atgoffa Johnny yn gyflym, "Rydyn ni'n defnyddio geiriau caredig yn y clwb."

Y tro hwn, mae Steven yn siarad â mam Johnny ac mae hi'n ymateb drwy ddweud, "Dyna gymeriad! Mae e fel ei frawd, ar ôl y merched drwy'r amser. Dw i wedi dweud wrtho am beidio â siarad fel 'na yn y clwb. Mae'n dal i fod ar yr YouTube yna. Dw i ddim yn deall technoleg o gwbl felly gallai e fod yn gwylio unrhyw beth." Mae Steven yn atgoffa mam Johnny eto am bwysigrwydd e-ddiogelwch i leihau'r risg o Johnny'n gwylio deunyddiau amhriodol.

Mae Johnny yn gadael gyda'i fam ac mae Steven yn galw cyfarfod brys gyda'r staff. Mae'n mynd â'r adroddiad o'r digwyddiad cynharach gydag ef i'r cyfarfod.

Mae Amy, aelod arall o'r staff, yn esbonio bod Johnny wedi bod yn gweiddi ar un o'i ffrindiau ar yr iard yr wythnos flaenorol, "Os byddi di'n cario mlaen i edrych arna i fel 'na, yna bydda i'n dy saethu di a dy ladd di!". Yna mae Amy'n datgelu bod Johnny wedi dweud wrthi bod ei frawd bob amser yn dweud ei fod yn mynd i'w saethu. Dywedodd hefyd bod ei frawd yn ei daro yn ei stumog weithiau os nad yw'n gwneud fel mae'n ei ofyn.

Ni chafodd hyn ei adrodd na'i gofnodi, a doedd yr aelod o staff a welodd y digwyddiad ddim wedi dilyn polisïau a gweithdrefnau'r feithrinfa, sy'n sail i'r holl ymarfer deddfwriaethol ar gyfer diogelu.

Does gan Steven ddim dewis ond disgyblu'r aelod o staff oedd wedi methu dilyn yr ymarfer plentyn-ganolog, a'r Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ymwneud â diogelu unigolion.

Mae Steven yn penderfynu cysylltu â'r Hwb Diogelu Amlasiantaethol *(Multi Agency Safeguarding Hub: MASH)* gan ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i drafod ei bryderon am Johnny gan ei fod yn teimlo nad yw rhieni Johnny yn ei amddiffyn a'u bod nhw'n ei roi mewn perygl *(at risk)*. Mae Steven yn cadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol rhag y rhieni.

O fewn dyddiau, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cysylltu â Steven. Maen nhw'n dweud eu bod wedi cynnal ymweliad arferol *(routine visit)* â chartref y teulu a dod o hyd i Johnny gyda'i frawd 12 oed yn gofalu amdano. Roedd nifer o ffrindiau brawd Johnny yn y tŷ hefyd ac roedden nhw'n yfed alcohol. Roedd Johnny yn ei ystafell wely. Aeth y gwasanaethau cymdeithasol â'r plant o'r tŷ a'u rhoi nhw mewn gofal maeth brys *(emergency foster care)*. Llwyddodd y gwasanaethau cymdeithasol i gysylltu â Mam neu Dad Johnny y bore wedyn pan ddaeth y ddau yn ôl i gartref y teulu.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dweud wrth Steven bod rhaid iddo ddod i gyfarfod strategaeth y diwrnod hwnnw. Yn ystod y cyfarfod, mae nifer o asiantaethau gwahanol yn trafod yr achos. Y penderfyniad yw y bydd Johnny a'i frawd yn aros yng ngofal y teulu maeth nes eu bod nhw'n penderfynu bod yr amgylchedd teuluol yn ddiogel.

Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

## Cwestiynau Johnny: Set C

**1.** Disgrifiwch beth yw ystyr 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' mewn ymarfer. [2]

..........

..........

..........

..........

**2.** Nodwch **ddwy** ffordd mae'r lleoliad yn sicrhau 'gweithio ar y cyd'. [2]

(i) ..........

..........

(ii) ..........

..........

**3.** *(a)* Disgrifiwch pam mae llesiant Johnny yn bwysig. [2]

..........

..........

..........

..........

*(b)* Amlinellwch **dair** ffordd mae'r clwb gwyliau'n cefnogi llesiant Johnny. [3]

(i) ..........

..........

(ii) ..........

..........

(iii) ..........

..........

Arholwr yn unig

**4.** Disgrifiwch arwyddion sy'n awgrymu y gallai Johnny fod yn wynebu risg o niwed neu gam-drin. [4]

**5.** Trafodwch ffyrdd mae'r lleoliad yn ceisio cefnogi Johnny a'i deulu er mwyn cadw eu hunain yn ddiogel. [4]

Arholwr yn unig

**6.** *(a)* Mae Amy'n cael ei disgyblu am beidio ag adrodd gwybodaeth hollbwysig am Johnny. Esboniwch pam mae adrodd am bryderon a'u cofnodi yn hanfodol mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. [5]

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

*(b)* Mae'r gosodiadau isod yn nodi beth byddai gweithiwr gofal plant yn ei wneud, a beth na fyddai'n ei wneud, wrth ddelio â datgeliad.

Ticiwch (✓) y **tri** gosodiad sy'n nodi beth **dylai** gweithiwr gofal plant ei wneud. [3]

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando a derbyn beth sy'n cael ei ddweud | | Ymchwilio i'r datgeliad | | Rhoi gwybod i'r person dynodedig *(designated person)* ar gyfer amddiffyn plant | |
| Addo cyfrinachedd | | Ceisio peidio â thorri ar draws | | Gofyn cwestiynau arweiniol | |

**7.** Esboniwch sut mae Steven wedi ymateb yn briodol i'r arwyddion o gam-drin sy'n cael ei amau. [3]

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**8.** Nodwch **ddau** reswm pam mae gan y lleoliad systemau diogelwch caeth *(strict)* ar bob dyfais yn y clwb. [2]

(i) ..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................

**DIWEDD Y PAPUR**

Arholwr yn unig

**Parhad yn unig.**